

# Agenda – Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

---

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Ionawr  
2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

[SeneddCCLLL@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddCCLLL@Cynulliad.Cymru)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**
- 2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 – y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**  
(09.00 – 10.30) (Tudalennau 1 – 47)  
Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus  
Reg Kilpatrick Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol  
Debra Carter Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
- 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**
- 4 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17: Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus – trafod y dystiolaeth**  
(10.30 – 10.45)

**Egwyl (10.45–11.00)**



**5 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 –  
Prif Weinidog Cymru**

(11.00 – 12.00)

(Tudalennau 48 – 74)

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Iaith Gymraeg

Iwan Evans, Uwch-swyddog Polisi, Cynllunio Strategol

**6 Papurau i'w nodi**

(Tudalennau 75 – 102)

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y  
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

**8 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17:  
Prif Weinidog Cymru – ystyried y dystiolaeth**

(12.00 – 12.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Dyddiad:** 13 Ionawr 2016

**Amser:** 9.00am i 10.30am

**Teitl:** Papur Tystiolaeth – Llywodraeth Leol, Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2016-17

### 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynigion cyllidebol ar gyfer rhaglenni Llywodraeth Leol a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft, a osodwyd ar 8 Rhagfyr 2015.

Yn unol â chais y Pwyllgor, ceir dadansoddiad o ffigurau'r Gyllideb Ddrafft fesul Llinell Wariant (BEL) yn Atodiad 1.

### 2. Cefndir

O gymharu â ffigurau sylfaenol 2015-16, mae cyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Leol wedi lleihau £87.8m yn 2016-17. O fewn y sefyllfa gyffredinol hon, mae dyraniadau ychwanegol o £21m i wasanaethau cymdeithasol a £34.8m o gyllid rheng flaen i ysgolion.

Dengys y tabl canlynol yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Leol. Nid yw'n cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) am nad yw'n rhan o Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru. Mae'r Gyllideb AME ar gyfer Llywodraeth Leol i'w gweld yn Atodiad 1. Ar ôl i ardrethi annomestig (NDR) gael eu datganoli ar 1 Ebrill 2015, caiff y ddarpariaeth ar gyfer llywodraeth leol a ariennir drwy'r Gronfa NDR (£977 miliwn ar gyfer 2016-17) ei chofnodi nawr fel AME.

### Tablau Ariannol Cryno

	Cyllideb Atodol 2015-16 £000	Llinell sylfaen 2015-16 £000	Newidiadau 2016-17 £000	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft 2016- 17 £000
DEL Adnoddau	3,430,187	3,432,187	-87,784	3,344,403
DEL Cyfalaf	22,920	22,920	0	22,920
Gwaelodlin DEL	3,453,107	3,455,107	-87,784	3,367,323

### 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Mae gan yr Adran Llywodraeth Leol bedair prif rôl:

- Darparu fframwaith deddfwriaethol a chyllidol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, sy'n hyrwyddo gonestrwydd, tryloywder ac atebolrwydd wrth wella gwasanaethau cyhoeddus lleol;
- Gweithio gyda phartneriaid (gan gynnwys partneriaid cymdeithasol) er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol fel rhan o'r ymgyrch Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys drwy ddiwygio Llywodraeth Leol;
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau (gan gynnwys ofn troseddau) a gweithio i leihau nifer yr achosion o danau ac argyfyngau eraill a'u heffaith; a
- Darparu arweinyddiaeth genedlaethol, gan helpu gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio'n effeithiol, a defnyddio arian cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl er mwyn cyflawni canlyniadau ar y cyd.

Amlinellir ein dull o weithredu yn y themâu a nodir ym Mhenodau 2 a 7 o'r Rhaglen Lywodraethu. Yn y cyd-destun hwn, yn ogystal â chyfeirio at Lywodraeth Leol, mae ein nodau hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd gwaith partneriaeth ac maent yn berthnasol i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Maent yn cynnwys:

- Atgyfnerthu democratiaeth leol;
- Cefnogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus;
- Sicrhau bod ein cyllid yn helpu i ddarparu gwasanaethau cryfach a mwy effeithiol, gan gynnwys helpu i ddarparu gwasanaethau ataliol;
- Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd; a
- Sicrhau bod pawb yn byw mewn cymunedau mwy diogel.

Rydym hefyd wedi ystyried sut y gall ein defnydd o gyllid o fewn yr Adran helpu i gyflawni'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cyllideb yr Adran Llywodraeth Leol yn hanfodol i alluogi cyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill i fodloni gofynion y Ddeddf. Mae'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y'i diffinnir yn y Ddeddf, sef: integreiddio, cydlafurio, cynnwys pobl, meddwl am yr hirdymor ac atal, yn ganolog i'n hymdrechion i ddiwygio Llywodraeth Leol ac yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn mynd ati i ddyrannu cyllid.

Yn ymarferol, adlewyrchir hyn yn ein gweledigaeth o Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru a'r gwerthoedd a'r ymddygiad sy'n sail i'r weledigaeth honno. Os caiff y nodau llesiant a nodir yn y Ddeddf eu cyflawni, mae'r weledigaeth yn rhoi diben cyffredin a ffocws ar y cyd i ni sicrhau ansawdd bywyd gwell a pharhaol, fel y nodir yn ymgyngoriad 'Y Gymru a Garem'.

### 4. Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Yn 2011, cyflwynwyd y Rhaglen Lywodraethu fwyaf uchelgeisiol a chynhwysfawr ers datganoli, sydd bellach yn cynnwys 547 o ymrwymadau gwahanol yn ymdrin â'r holl wasanaethau amrywiol rydym yn gyfrifol amdanynt. Gwnaethom hynny gan wybod bod y rhagolygon ar gyfer arian cyhoeddus yn heriol. Cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol terfynol ar y Rhaglen Lywodraethu

ym mis Mehefin 2015 a ddangosodd fod mwy na 95 y cant o'n hymrwymiaid naill ai wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir i'w cyflawni erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

Mae delio â chaledi wedi bod yn brawf mawr i Lywodraeth Cymru a'r broses ddatganoli yn gyffredinol, ond rydym wedi cyflawni drwy barhau i ganolbwyntio'n gadarn ar gyflawni a chefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym wedi gwneud hynny drwy ganolbwyntio ein hadnoddau ar bedair blaenoriaeth gyffredinol i Gymru, sef iechyd a gwasanaethau iechyd, cyrhaeddiad addysgol, twf a swyddi, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn 2015, rydym wedi defnyddio'r gwaith cynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn frwdfrydig, gan osod esiampl i'r partneriaid rydym yn eu cefnogi'n ariannol.

Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu ein cynlluniau gwariant sy'n cyd-fynd ag ymrwymiaidau'r Rhaglen Lywodraethu a'n hymagwedd o ran datblygu cynaliadwy a gwariant ataliol ym mhob maes. Mae Adran 5 isod yn tynnu sylw at ein polisiau allweddol i helpu i gyflawni ein hymrwymiaidau.

### Swyddogion Cymorth Cymunedol

Gwnaed darpariaeth am flwyddyn arall o gyllid ar gyfer y 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (SCC) ychwanegol a gafodd eu recriwtio o dan ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu. Llwyddwyd i gyflawni'r targed recriwtio ym mis Hydref 2013 a chafodd effaith yr SCCau ychwanegol ei gwerthuso drwy ymchwil a gomisiynwyd yn allanol, a gynhaliwyd gan Sefydliad Gwyddor Heddlu'r Prifysgolion (UPSI). Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn asesu gwaith SCCau ac yn mesur eu heffaith wrth wneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel.

Ar adeg pan fo Llywodraeth y DU yn torri cyllid i'r heddlu sy'n arwain at leihad yn nifer y swyddogion yn Lloegr, dengys yr ymchwil nad yw'r un lleihad i'w weld yng Nghymru. Awgryma'r ymchwil fod ein swyddogion ychwanegol i'w gweld ar ein strydoedd a'u bod yn cyflawni disgwyliadau'r cyhoedd drwy ddelio â throedd lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dyma un o'r prif ysgogiadau y tu ôl i'r prosiect hwn - ychwanegu presenoldeb heddlu amlwg a fyddai'n helpu i roi sicrwydd i'r cyhoedd.

Mae ein SCCau yn cyfrannu'n sylweddol at nifer y swyddogion sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y gymuned ac mae ganddynt rôl hollbwysig i'w chwarae yn eu cymunedau. Maent yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol ar atal troseddau; yn rhoi sicrwydd i grwpiau dros 60 oed; yn helpu busnesau lleol i fynd i'r afael â dwyn, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymarferion chwilio, atafaelu alcohol a thybaco a gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ ar gyfer ymchwiliadau troseddol. Maent hefyd yn gweithio mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan gefnogi'r agenda trechu tloti.

### Llywodraeth Leol

Mae gwariant Llywodraeth Leol yn hollbwysig er mwyn cefnogi addysg, gofal cymdeithasol, tai ac ystod o wasanaethau eraill sy'n ceisio rhoi'r cyfle gorau i bobl fyw bywydau iach a ffyniannus. Mae'r buddsoddiadau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i holl themâu ein Cyllideb, gan gynnwys

Tudalen y pecyn 20

Iechyd a Lles, Twf a Swyddi Cynaliadwy, Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig.

O fewn y toriadau cyffredinol i gyllideb Llywodraeth Cymru, ein nod fu lleihau'r effaith ar Awdurdodau Lleol a diogelu gwasanaethau rheng flaen cymaint â phosibl. Yn sgil hynny, gobeithio y gellir cyfyngu ar yr effaith ar gydraddoldebau yn lleol. Wrth wneud hynny, rydym wedi cynnal adolygiadau beirniadol o'n rhaglenni eraill, gan annog camau i symud grantiau penodol i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddewis sut yr hoffent ddefnyddio'r adnoddau; lleihau biwrocratiaeth drwy hyrwyddo proses gynllunio sengl, integredig; a darparu cymorth i drawsnewid a gwella gwasanaethau.

**O ran Cyrhaeddiad Addysgol**, mae diogelu gwariant rheng flaen mewn ysgolion yn flaenoriaeth o hyd ac yn y Gyllideb Ddrafft, rydym yn parhau i gyfrannu cyllid diogelu ysgolion ar lefel sydd 1% yn uwch na'r newidiadau i DEL Cymru. Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu ein bod yn darparu £39.7m ychwanegol ar gyfer ysgolion yn 2016-17, y caiff £34.8m ohono ei ddyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i ddarparu gwasanaethau rheng flaen, yn enwedig y cysylltiadau pwysig rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal â'r diogelwch rydym wedi'i roi i gyllid iechyd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, rydym hefyd wedi ceisio cysgodi awdurdodau lleol rhag effaith lawn toriadau Llywodraeth y DU i'n Cyllideb. Er bod y gostyngiadau cronol i'n Cyllideb yn golygu na allwn barhau i roi'r un faint o arian i bopeth, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd **gwasanaethau cymdeithasol** i gynaliadwyedd y gwasanaeth iechyd a lles cymunedau. Rydym wedi gwrandao ar bryderon llywodraeth leol yng Nghymru ac rydym yn buddsoddi £21m arall yn 2016-17 fel ffordd o gydnabod y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn dyrannu cyfanswm o £4.266bn i'r Cam Gweithredu **Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol** yn 2016-17, sy'n darparu cyllid refeniw heb ei neilltuo i Awdurdodau Unedol a'r Heddlu er mwyn iddynt gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau craidd. Mae'r dyraniad hwn yn cynnwys y Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer llywodraeth leol, sef £977m, a ariennir drwy'r Gronfa Ardrethi Annomestig. Mae hwn yn setliad da i Lywodraeth Leol ac yn dilyn sawl blwyddyn o sefydlogrwydd cyllidebol pan aeth Llywodraeth Cymru ati i annog a helpu Llywodraeth Leol i fuddsoddi arian mewn camau i drawsnewid gwasanaethau er mwyn paratoi ar gyfer setliadau anodd yn y dyfodol.

Yn unol â hyn, caiff y £31.1m ar gyfer y **Cam Gweithredu Gwella Llywodraeth Leol**, sydd wedi helpu Awdurdodau Lleol i feithrin capasiti corfforaethol a rhoi cymhellion i wella gwasanaethau, ei brif-ffrydio i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol ddewis sut yr hoffent dargedu eu buddsoddiadau er mwyn gwella perfformiad. Yn ehangach, rydym wedi datgan yn glir ein bod yn bwriadu symud cyllid grant sy'n sail i wasanaethau craidd i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw lle bo hynny'n ymarferol. Mae hyn yn golygu bod dros £190 miliwn o gyllid blynyddol wedi'i symud i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw ers dechrau Adolygiad o Wariant 2010.

Rydym yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn newid trefniadau buddsoddi fel eu bod yn canolbwyntio ar wariant ataliol ym mhob maes gwasanaeth yn ogystal â chefnogi mentrau

penodol sy'n ei gwneud yn bosibl i brofi dulliau gweithredu newydd. Mewn llawer o achosion, mae'r cyllid a rown i gefnogi cymunedau a gwasanaethau ledled Cymru hefyd yn wariant ataliol allweddol ac yn gweithio'n uniongyrchol i drechu tlodi. Drwy fwrdd y rhaglen Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed, daw uwch arweinwyr o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i brofi dulliau gweithredu a chrynhoi gwersi y gellir eu cymhwysu at wasanaethau ledled Cymru. Un elfen o'r rhaglen hon yw helpu i newid i ddulliau ataliol drwy brosiectau sy'n anelu at ddarparu ymyriadau cynharach (plant coll; cam-drin domestig); a gwasanaethau cydlynol (e.e. galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol am gyhyd â phosibl neu fabwysiadu dulliau o weithio fel tîm o amgylch y teulu). Mae hyn hefyd yn cysylltu â darparu gwasanaethau cydlynol i bobl ifanc sy'n NEET, sy'n flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi gosod gweledigaeth glir, sef creu Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru lle mae asiantaethau yn cydweithio â'i gilydd a chyda dinasyddion er mwyn gwella eu bywydau. Mae gan Awdurdodau Lleol rôl ganolog i'w chwarae yn hyn o beth. Mae ein gweledigaeth fel a ganlyn:

- Rydym am gael gwasanaethau cyhoeddus sy'n paratoi ac yn galluogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt gyda chymorth gan eu teulu, eu ffrindiau a'u cymunedau ac nid ydym am greu darpariaeth na cheisio rhoi cyfiawnhad dros barhau â darpariaeth os nad oes ei hangen;
- Rydym am i wasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar ddatrys problemau sylfaenol;
- Rydym yn cydnabod bod newid y cydbwysedd tuag at atal yn cymryd amser ond mae angen i ni fod yn feiddgar pan fo adnoddau'n brin;
- Rydym yn cydnabod bod technoleg ddigidol wedi trawsnewid y ffordd y mae pobl yn byw ac rydym am i wasanaethau cyhoeddus ddefnyddio dulliau digidol i drawsnewid y ffordd y maent yn rhyngweithio â dinasyddion;
- Rydym am i ddinasyddion helpu i ddylunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus;
- Rydym am i wasanaethau cyhoeddus fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion lleol - ac rydym am i Lywodraeth Cymru ddarparu llawer mwy o hyblygrwydd er mwyn galluogi hynny i ddigwydd;
- Rydym am i ddinasyddion gael gwasanaethau cyhoeddus cydlynol, effeithlon ac effeithiol sy'n berthnasol iddynt;
- Rydym am rymuso gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus i wneud eu gwaith a gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i newid gwasanaethau;
- Rydym am roi cymhellion i annog gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus i arloesi a chwilio'n gyson am ffyrdd o wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Mae'r weledigaeth hon wrth wraidd y newid y bwriedir ei ysgogi drwy'r diwygiadau i Lywodraeth Leol. Mae hefyd yn adlewyrchu'r newid y bwriedir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei wneud i wasanaethau cyhoeddus.

### Cam-drin Domestig

Yn 2016-17, rydym yn cynyddu'r cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu Cam-drin Domestig i £4.5m o gyllid adnoddau ac £1m o gyllid cyfalaf er mwyn helpu i weithredu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Rydym yn cefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy roi cyllid i sefydliadau trydydd sector a



sefydliadau statudol er mwyn darparu gwasanaethau i ddiodefwyr a chodi ymwybyddiaeth. Mae'r dyraniad cyfalaf yn darparu cymorth ar gyfer amrywiaeth o waith cyfalaf er mwyn helpu i wella seilwaith gwasanaethau ledled Cymru gan olygu y bydd gan ddiodefwyr fynediad gwell i'r gwasanaethau hanfodol hyn.

Mae'r cyllidebau Cam-drin Domestig yn gwneud cyfraniad pwysig i'r agenda gwariant ataliol a'r agenda trechu tlodi. Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yn costio tua £826.4m y flwyddyn yng Nghymru ac mae tystiolaeth gan Gweithredu ar y Cyd yn Erbyn Cam-drin Domestig (CAADA) yn awgrymu bod pob £1 a gaiff ei gwario ar wasanaethau cam-drin domestig yn arbed £2.90 i'r pwrs cyhoeddus. Mae tystiolaeth newydd hefyd yn awgrymu bod diodefwyr mewn tlodi yn fwy tebygol o ddiodef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig yn helpu'r bobl hyn sy'n agored i niwed drwy sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu grŵp ethnig neu eu statws cymdeithasol.

### Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc

Rydym yn parhau i ariannu'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17 gyda'r gyllideb yn gostwng i £4.420m, a bydd y cyllid hwn yn parhau i gefnogi ystod o fentrau sy'n anelu at atal a lleihau troseddu ymhlith ieuenctid. Gwneir hyn yn bennaf drwy Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc (sydd mewn Perygl o Droseddu), sef y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid gynt. Bydd y cyllid hwn yn parhau i ganolbwyntio ar brosiectau sydd â'r cysylltiad agosaf â chyfrifoldebau datganoledig a bydd yn targedu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Bydd sefydlu diwylliant o ymyrryd yn gynnar yn unol â'r egwyddor atal sy'n ganolog i ddatblygu cynaliadwy yn galluogi cyrff cyhoeddus i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Gwasanaethau Tân ac Achub

Yn 2016-17, rydym yn dyrannu £5.1m o gyllid refeniw ac £1.7m o gyllid cyfalaf drwy'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Tân ac Achub. Nod y buddsoddiad hwn, sy'n cyfrannu at Gefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig, yw ceisio lleihau nifer yr achosion o dân a digwyddiadau y mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) ymateb iddynt drwy roi ymyriadau, cyngor a chyfarpar ataliol ar waith a'u cefnogi. Rhoddwyd pwyslais penodol ar leihau tanau bwriadol a throseddau eraill sy'n gysylltiedig â tân, ac mae hyn - er gwaethaf y tanau glaswellt a welwyd Pasg diwethaf - wedi cael effaith fawr. Mae nifer y tanau bwriadol wedi gostwng dwy ran o dair ers i'r cyfrifoldeb am y maes gael ei ddatganoli ddeng mlynedd yn ôl; ac mae llai na 5% o'r rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglenni mwyaf dwys ATAau i droseddwyr hysbys a thebygol yn mynd ymlaen i aildroseddu.

Bydd y cyllid hwn hefyd yn cefnogi cydnerthedd ATAau a'u gallu i ymateb i ddigwyddiadau a thrychinebau mawr, drwy ddarparu cyfarpar arbenigol, hyfforddiant i'w ddefnyddio a threfniadau cenedlaethol cyffredinol i reoli gallu ATAau. Mae hyn yn cynnwys capasiti i ymateb i ymosodiad gan derfysgwyr ag arfau tanio (Marauding Terrorist Firearms Attack - MTFa), lle gall ATAau ddarparu cymorth hanfodol wrth symud anafusion o leoliad y digwyddiad. Mae hyn yn amlwg yn hollbwysig o gofio'r hinsawdd bresennol o ran diogelwch, ond mae'n rôl arbenigol iawn sy'n galw am lawer o gyfarpar a hyfforddiant ychwanegol. Mae cynlluniau i wella'r gallu i ymateb i MTFa yng Nghymru, a gefnogir gan yr arian hwn, eisoes ar gam datblygedig.

Er bod y gyllideb gyffredinol hon yn llai, mae'r gyllideb ddiwygiedig wedi'i dyrannu yng nghydestun tueddiadau hirdymor yn nifer yr achosion o danau a'u difrifoldeb, a'u heffaith ar waith y gwasanaeth tân. Mae'r dystiolaeth ganlynol yn cefnogi hyn:

- Bu lleihad mawr, parhaus a hirdymor yn nifer yr achosion o danau ledled Cymru. Yn ôl ffigurau 2014-15, cafwyd 56% yn llai o danau o gymharu â 2004-5, a 58% yn llai o anafusion.
- Mae data hefyd yn dangos bod lleihad parhaus wedi bod mewn categorïau gwahanol o danau dros y tymor hwy. Mae'r rhain yn cynnwys tanau mewn anheddau a thanau bwriadol. Mae galwadau ffug maleisus hefyd yn lleihau.
- Er bod rhai amrywiadau bach, ar y cyfan, mae'r tueddiadau hyn i'w gweld yn y tri gwasanaeth tân yng Nghymru.

Mae'r tueddiadau hyn yn debyg i'r rhai a welir yn Lloegr neu'n rhagori arnynt. Maent yn adlewyrchu'r gwaith ataliol a wneir gan wasanaethau tân a newidiadau cymdeithasol fel lleihad mewn cyfraddau ysmegu a rheoliadau diogelwch tân llymach (mewn perthynas â deunyddiau adeiladu a dodrefnu, er enghraifft).

Mae'r gwasanaethau tân yn canolbwyntio'n gynyddol ar atal tanau, lleihau'r risg o dân a gwella ymwybyddiaeth o dân a diogelwch tân, yn hytrach nag ymateb i ddiwyddiadau. Hynny yw, gwelir fwyfwy mai gwaith ataliol yw prif fusnes craidd y gwasanaeth, a chaiff ei reoli a'i ariannu yn unol â hynny. Yn y cyd-destun hwn, dim ond lleihad bach a welwyd yng ngwariant termau real a chapasiti gwasanaethau tân yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf.

Wrth reoli'r gyllideb ddiwygiedig hon byddwn yn ystyried sut i ganolbwyntio ar yr ymyriadau mwyaf effeithiol a'r cydbwysedd rhwng gweithgarwch ataliol ac ymatebol. Hyd yma, defnyddiwyd grantiau Diogelwch Tân Cymunedol i ariannu rhywfaint o'r gwaith ataliol hwn, gan gynnwys gwaith gyda grwpiau sy'n agored i niwed, yn enwedig:

- Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref: darparu cyngor ar ddiogelwch yn y cartref a synwryddion mwg lle bo hynny'n briodol (gan gynnwys larymau i bobl sy'n drwm eu clyw a chyfarpar ataliol/ymyriadau arbenigol eraill i amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf)
- Mentrau ieuencid (fel Phoenix a Throseddau a Chanlyniadau): lle bydd plant y nodwyd eu bod mewn perygl o droseddu neu sydd wedi troseddu, yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgarwch.
- Lleihau tanau bwriadol: gweithio gydag asiantaethau eraill i dargedu tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymyriadau'n amrywio o bresenoldeb amlwg mewn ardaloedd lle gwyddys bod tanau'n cael eu cynnau'n fwiadol i addysg a chymau gweithredu gan yr heddlu.
- Diogelwch ar y Ffyrdd: Gweithio gydag asiantaethau eraill fel Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans i leihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu perygl (y grŵp oedran 17 i 24 oed fel arfer). Mae'r

ymyriad diogelwch ar y ffyrdd hwn wedi'i dargedu at yrwyr ifanc a'r hyn sy'n achosi gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u heffaith.

Hefyd, dylid bod modd lleihau gwariant ar gydnerthedd drwy fabwysiadu dulliau gweithredol mwy newydd ac effeithlon, a dull symlach o reoli'n gyffredinol, heb amharu ar y gallu i ymateb.

### Arolygiaethau

Mae cyllid Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cynyddu fel cydnabyddiaeth o'r rôl allweddol y mae'n ei chwarae wrth sicrhau ansawdd amrywiaeth o ymyriadau a lleoliadau gofal iechyd. Dyrannwyd cyllid ychwanegol i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn er mwyn sicrhau y gallant barhau i ymdopi â'u toriadau.

## **5. Polisiau Allweddol**

### Llywodraeth Leol

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth Leol ynglŷn â setliad 2016-17 ac rydym wedi rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i Awdurdodau, mor gynnar â phosibl, heb ragfynegi'r Gyllideb Ddrafft a gyhoeddir nac ystyriaeth ffurfiol y Cynulliad ohoni. Ystyriwyd materion ariannol yn fanwl yng nghyfarfodydd Cyngor Partneriaeth Cymru a'i Is-Grŵp Cyllid. Hefyd, cynhaliais seminar ar y cyd â CLILC ar 19 Tachwedd i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r heriau a'r cyfleoedd i Lywodraeth Leol yng Nghymru dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant hwn.

Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol wedi cydweithio i ystyried effaith y cyhoeddiad hwyr ynglŷn â chanlyniad Adolygiad o Wariant 2015 ar y prosesau i bennu cyllidebau ar gyfer Llywodraeth Leol. Daethant i'r casgliad, er bod yr amserlen yn cyflwyno heriau i Awdurdodau Lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau wrth iddynt bennu cyllidebau, nid yw'n peri unrhyw rwystr cyfreithiol nac ariannol i'r broses. Ysgrifennais i ac Arweinydd CLILC at yr holl Awdurdodau Lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau yn nodi hynny ym mis Hydref.

Mae'r Is-grŵp Dosbarthu, sef gweithgor sy'n cefnogi Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru, wedi parhau i weithio ar fanylion y fformiwla i ddsbarthu cyllid rhwng y 22 o Awdurdodau Unedol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y dangosyddion a ddefnyddir yn gyfredol ac yn rhoi'r mesurau gorau posibl o angen cymharol.

Caiff Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2016-17 eu hariannu ar yr un sail ag yn 2015-16. Mae'r trefniadau yn cynnal hawliau i gartrefi sy'n gymwys i gael gostyngiad yn eu treth gyngor o dan y Cynllun.

### Diwygio Llywodraeth Leol

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn arall ar ddiwygio Llywodraeth Leol, sef 'Grym i Bobl Leol', ac ym mis Mehefin amlinellwyd rhagor o gynigion mewn perthynas ag uno Awdurdodau Lleol. Cafodd y rhain eu dwyn ynghyd ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori ym mis Tachwedd. Mae'r pecyn ymgynghori yn cynnwys: Bil Drafft, Papur Ymgynghori, Nodiadau Esboniadol, Memorandwm

Tudalen y pecyn 25

Esboniadol, Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Drafft hwn yn dangos y gallai'r cynigion i Ddiwygio Llywodraeth Leol greu arbedion net o hyd at £650m dros ddeng mlynedd ac y byddent yn talu amdanynt eu hunain ymhen dwy neu dair blynedd. Mae hyn yn cyd-fynd â dadansoddiad blaenorol a gyhoeddwyd gan CIPFA ar ran CLILC. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r pwysau ariannol cynyddol sy'n wynebu gwasanaethau lleol yng Nghymru. Mae'r pwysau hyn yn debygol o barhau am y degawd nesaf o leiaf, a bydd y galw am rai gwasanaethau yn cynyddu. Yn wyneb yr heriau hyn, ni allwn wneud dim byd.

Mae'r pwysau ariannol difrifol hefyd yn golygu nad yw'n realistig disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu chwistrelliadau mawr o arian i dalu am gost yr uno. Un o'r egwyddorion arweiniol fydd rheoli'r camau uno hyn mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r budd mwyaf ac yn lleihau costau i'r eithaf. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2015, yn ei gwneud yn bosibl i wneud paratodau cynnar, er enghraifft, drwy sefydlu Pwyllgorau Pontio, er mwyn sicrhau y manteisir ar bob cyfle i gael y budd mwyaf o'r uno. Fodd bynnag, mae Diwygio Llywodraeth Leol yn golygu mwy na diwygio strwythurau, mae'n ymwneud â sicrhau gwasanaethau a chanlyniadau gwell i bobl a chymunedau drwy gyflwyno trefniadau rheoli perfformiad gwell, trefniadau llywodraethu gwell a democratiaeth gryfach, yn ogystal â defnyddio adnoddau prin yn well.

### Adolygiad o Hyblygrwydd Cyllido

Yn unol â'n gweledigaeth o greu Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru sy'n cydweithio i gyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion, rydym yn awyddus i ailddiffinio'r systemau sy'n rhoi sicrwydd ynglŷn â'r canlyniadau a gaiff eu cyflawni drwy'r cyllid sylweddol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol i edrych unwaith eto ar y gallu i gynyddu hyblygrwydd cyllido i Awdurdodau Lleol a, lle bo hynny'n briodol, symud cyllid o grantiau penodol i mewn i'r ffrwd ariannu heb ei neilltuo.

Mewn trafodaeth ag Awdurdodau Lleol, rydym yn parhau i archwilio'r gallu i wneud mwy ar gyfer 2016-17 a datblygu rhagor o opsiynau i weinyddiaeth newydd eu hystyried mewn perthynas â 2017-18. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n helaeth â chydweithwyr Gweinidogol ac yn ogystal â gwneud cynnydd ar gyfer 2016-17, y bwriad yw y bydd llawer rhagor o waith yn cael ei wneud ar gyfer 2017-18.

Rydym yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Leol yn eu cymryd i ganfod ffyrdd y gallent roi sicrwydd eu bod yn perfformio'n well pe bai trefniadau ariannu yn cael eu symleiddio.

### Costau Gweinyddu

Mae angen hefyd i awdurdodau barhau i fynd ar drywydd cyfleoedd i wneud arbedion gweinyddol, gan wneud cymaint â phosibl i ddiogelu'r gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Leol y mae pawb yn dibynnu arnynt. Dangosodd adroddiad annibynnol gan KPMG, yn seiliedig ar ddata 2013-14, fod gan Awdurdodau yng Nghymru y capasiti i wneud arbedion sylweddol o hyd at £151 miliwn y flwyddyn drwy fabwysiadu arferion mwy effeithlon, meincnodi yn erbyn Awdurdodau

cyfatebol yn Lloegr a thrawsnewid eu swyddogaethau gweinyddol. Rydym yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol drwy'r Grŵp Effeithlonrwydd Adnoddau er mwyn eu helpu i gynhyrchu'r arbedion hyn.

### Tryloywder mewn Llywodraeth Leol

Fel rhan o'n rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol, rydym wedi ymgynghori ar ac wedi parhau i ddatblygu amrywiaeth eang o gynigion i greu mwy o dryloywder mewn Llywodraeth Leol, megis gorfodaeth i ddarlledu cyfarfodydd a chynnwys y cyhoedd i raddau mwy wrth wneud penderfyniadau.

Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid o gyllideb Meithrin Democratiaeth Leol er mwyn gweithredu argymhellion adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, gyda'r nod o sicrhau bod dewis amrywiol o ymgeiswyr yn sefyll yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017.

### Cyfiawnder Ieuenctid

Caiff ein hymrwymiad i wella bywydau plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ei ddangos gan ein penderfyniad i barhau i ddyrannu £4.420 miliwn ar gyfer Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc (sydd Mewn Perygl o Droseddu) yn 2016-17. Bydd y gronfa, sef y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid gynt, yn parhau i gefnogi amrywiaeth o fentrau sy'n ceisio atal a lleihau troseddau ieuenctid. Mae'r gronfa yn cyfrannu at gyflawniadau'r system cyfiawnder ieuenctid dros y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf yn lleihau. Rhwng blynyddoedd ariannol 2012/13 a 2013/14 bu gostyngiad o 26.5% yn nifer y bobl ifanc a ymunodd â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf yng Nghymru<sup>1</sup>. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa yn parhau i ostwng ac ym mis Mehefin 2014, roedd 47 o bobl ifanc o Gymru yn y ddalfa<sup>1</sup>. Dyrennir y cyllid gan ddefnyddio fformiwla cyllido a chaiff ei ddsbarthu i Dimau Troseddau Ieuenctid neu Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru er mwyn cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol. Bydd parhau â'r cyllid yn helpu i gyflawni Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf, sef strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc yng Nghymru sy'n wynebu risg o ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd eisoes yn rhan o'r system. Cafodd y strategaeth ei lansio a'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014 ac mae'n cynnal ffordd hirsefydlog Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyfiawnder ieuenctid, sef trin y rhai sy'n ymddwyn mewn ffordd droseddol, neu sydd mewn perygl o droseddu, fel plant a phobl ifanc yn gyntaf. Mae hyn yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i gydymffurfio â'r Confensiwn.

### Diogelwch Cymunedol

Rydym yn diogelu'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol (SCCau) gan ddyrannu £16.8m yn 2016-17 er mwyn cynnal ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod 500 o SCCau yn cael eu recriwtio. Mae'r buddsoddiad hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at wariant ataliol gan fod SCCau yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol ar atal troseddau; yn rhoi sicrwydd

<sup>1</sup> "Mae'r ffigurau hyn yn rhoi darlun misol o'r boblogaeth yn y ddalfa, a chânt eu casglu ar ddydd Gwener diwethaf y mis neu ddydd Gwener cyntaf y mis canlynol, yn dibynnu pa un sydd agosaf at ddiwedd y mis mewn gwirionedd"

i grwpiau dros 60 oed; yn helpu busnesau lleol i fynd i'r afael â dwyn, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymarferion chwilio, atafaelu alcohol a thybaco a gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ ar gyfer ymchwiliadau troseddol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd yn uniongyrchol i Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau): mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol. Mae'r cyllid ychwanegol a ddarperir gennym, fel y nodir uchod, yn canolbwyntio ar wella diogelwch tân ac ymateb i drychinebau mawr. Mae diogelwch tân, yn enwedig, yn rhoi pwyslais cryf ar atal a chynaliadwyedd. Mae wedi cyfrannu at y gostyngiad hirdymor sylweddol mewn tanau ac anafusion tanau, sydd ill dau wedi gostwng dros 50% ers i'r cyfrifoldeb am y maes gael ei ddatganoli. Yn ei dro, mae hyn wedi creu capasiti o fewn ATAau i fynd i'r afael â risgiau a pheryglon eraill, fel achosion o gwmpo yn y cartref - y gellir atal llawer ohonynt yn hawdd. Mae Llywodraeth Cymru ac ATAau yn bwriadu manteisio ar y potensial hwnnw dros y flwyddyn nesaf drwy arallgyfeirio rolau diffoddwyr tân yn y maes hwn.

Mae cysylltiad agos rhwng llawer o risgiau tân a nodweddion gwarchoddedig. Mae pobl anabl, pobl hŷn, plant a rhieni sengl, er enghraifft, yn wynebu risg benodol o gael tân yn y cartref a/neu fethu â dianc rhagddo. Mae'r rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac ar gymryd mesurau sy'n briodol i bob achos.

Nid oes modd mesur effeithiolrwydd mesurau ataliol fel y rhain yn gywir, gan nad yw'n bosibl gwybod sawl digwyddiad fyddai wedi digwydd pe na bai, a dim ond pe na bai, y mesurau hyn wedi cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso'r rhaglenni hyn yn drylwyr, o ran y lefelau gwasanaeth a ddarperir, i ba raddau y maent yn canolbwyntio ar grwpiau sy'n wynebu risg, a thrwy ddefnyddio technegau ansoddol fel astudiaethau achos o ymyriadau unigol.

### Monitro a Gwerthuso er mwyn Dangos Gwerth am Arian

Caiff gwybodaeth allweddol am berfformiad gwasanaethau Awdurdodau Lleol ar gyfer 2014-15 a blynyddoedd blaenorol ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

O fewn y cymorth cyllid i lywodraeth leol, ceir darpariaeth ar gyfer cynlluniau i leihau'r dreth gyngor. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cymorth y dreth gyngor yn ystod cynlluniau 2013 a 2014. Rhoddodd yr adolygiad hwn ystyriaeth fanwl i nifer o ffynonellau o dystiolaeth am brofiadau ac effeithiau cynlluniau yn 2013-14, gan gynnwys gwaith a wnaed gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n dadansoddiad ein hunain o ddata a gasglwyd gan bob Awdurdod yng Nghymru.

Bydd gwerthusiadau sy'n mynd rhagddynt o weithgarwch byrddau gwasanaethau lleol a'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol yn ychwanegu at y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd gennym am ddulliau gweithredu newydd / arfer gorau ac yn darparu mwy o dystiolaeth i ategu tystiolaeth fesuradwy ar gyfer gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag ATAau mewn cyfnodau anodd i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon drwy dargedu adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell a diogelu cymunedau rhag peryglon tân.

Mae Fframwaith "O 2012 Ymlaen" yn rhoi mwy o bwyslais ar wella effeithlonrwydd a gwerth am arian, mae angen i ATAAu gynllunio a dylunio eu gwasanaethau mewn ffordd arloesol ac ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddefnyddio staff er mwyn darparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cymorth.

### Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd ac Ystyriaeth i'r Gymraeg

Er mai mater i bob Awdurdod Lleol yw penderfynu pa gamau y bydd yn eu cymryd, er mwyn lliniaru effeithiau'r caledi, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad at grwpiau gwarchoddedig yr effeithir arnynt. Er mwyn gwrthbwysu'r effeithiau ar gymunedau, rydym wedi buddsoddi mewn darparu gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen drwy'r Grant Cynnal Refeniw, wedi defnyddio ein hysgogiadau o ran seilwaith a chyllid arloesol ac wedi diogelu'r rhaglenni hynny sy'n ymwneud â chydaddoldeb, adfywio cymunedol, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.

Mae pob Awdurdod Lleol yn gorff annibynnol a gaiff ei ethol drwy ddulliau democrataidd, sy'n atebol i'w bleidleiswyr am y penderfyniadau a wna. Mae gan awdurdodau gyfres o ddyletswyddau a swyddogaethau statudol, a phwerau i ddarparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau eraill. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau lleol y mae llawer ohonynt, yn eu hanfod, wedi'u targedu at bobl â nodweddion gwarchoddedig ac maent yn gwneud cyfraniad mawr i drechu tloidi. Er enghraifft, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswyddau statudol i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a darparu gwasanaethau addysg. Mae ganddynt ddyletswyddau hefyd i ddarparu llawer o wasanaethau eraill, yn ogystal â dyletswydd i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu cymunedau. Nid yw'n bosibl inni nodi'n fanwl effaith y lleihad yn y cyllid refeniw cyffredinol ar gydraddoldeb ar gyfer holl wasanaethau'r Awdurdodau Lleol. Y rheswm am hyn yw y bydd yr effaith yn amrywio'n lleol o un Awdurdod i'r llall yn dibynnu ar y penderfyniadau a wnânt dros y misoedd nesaf ar eu cyllidebau unigol. Er enghraifft, efallai y bydd rhai Awdurdodau yn ymuno ag eraill i ddarparu gwasanaethau, efallai y bydd rhai yn adolygu eu polisïau codi tâl, efallai y bydd rhai yn defnyddio cronfeydd wrth gefn, efallai y bydd rhai yn ystyried rhoi gwasanaethau ar gontractau allanol, ac efallai y bydd eraill yn ystyried codi'r Dreth Gyngor er mwyn lliniaru a rheoli'r toriadau hyn. Bydd pob Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar sail anghenion a blaenoriaethau lleol ac mae'n rhaid iddo asesu effaith ei gynigion a'i benderfyniadau ar grwpiau gwarchoddedig ac mewn perthynas â'i swyddogaethau ehangach.

Rydym wedi diogelu Llywodraeth Leol yng Nghymru rhag y toriadau gwaethaf i arian cyhoeddus. Wrth roi'r diogelwch hwn, gwnaethom egluro mai'r bwriad oedd galluogi Llywodraeth Leol i ailystyried a diwygio gwasanaethau er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau i ddod. Ategwyd hyn gan raglen waith a gafodd ei chyflwyno ar y cyd â phartneriaid eraill o fewn y gwasanaethau cyhoeddus dan nawdd Cyngor Partneriaeth Cymru i annog cydweithredu, arloesedd ac ailddylunio gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi parhau i gael mwy o gefnogaeth o gymharu ag Awdurdodau yn Lloegr. Ers 2010-11, mae gwariant ar wasanaethau lleol yn Lloegr wedi gostwng tua 10% mewn termau arian parod, tra'i fod wedi cynyddu 2.5% yng Nghymru. Mae gwariant y pen o'r boblogaeth gan Lywodraeth Leol yng Nghymru tua £423 yn uwch yn 2015-16 nag yn Lloegr.

Mae'r heriau yn anodd ond bydd gwneud penderfyniadau byrdymor, er enghraifft cau canolfannau hamdden neu lyfrgelloedd heb ystyried yr effeithiau tymor hwy ar iechyd a llythrennedd, ond yn arwain at Gronni problemau i'r dyfodol ac nid yw'n ffordd gynaliadwy o reoli'r toriadau cyllidebol.

Ochr yn ochr â'r ystyriaethau cyllidebol hyn, mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Rhaid i Awdurdodau Lleol gyflawni eu hasesiadau eu hunain o'r effaith ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg wrth iddynt fwrw ymlaen â'u prosesau cyllidebol a disgwyliwn i'r rhain ystyried goblygiadau eu penderfyniadau gwariant arfaethedig yn llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Leol am arfer gorau wrth gynnwys poblogaethau lleol yn y broses o bennu cyllidebau.

## 6. Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth

Deddfwriaeth	Cam gweithredu/SPA	Adnoddau/Cyfalaf	£
Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.	Cam-drin Domestig	Adnoddau	468,700
Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) 2013	Meithrin Democratiaeth Leol	Adnoddau	10,000
Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015	Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol	Adnoddau	125,000
Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (teitl dros dro)	Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol	Adnoddau	0
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2013	Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol	Adnoddau	2,500

### Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

Cyflwynwyd y Ddeddf ym mis Ionawr 2015 a chafodd gydsyniad Brenhinol ar 26 Tachwedd. Mae'r Ddeddf yn darparu'r pwerau sydd eu hangen i alluogi a hwyluso gwaith paratoi ar gyfer rhaglen i uno Awdurdodau Lleol. Mae'n galluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ddechrau gweithio ar drefniadau etholaethol a chydabyddiaeth ar gyfer yr awdurdodau newydd arfaethedig. Mae'n cynnwys pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau sefydlu Cydbwyllgorau Pontio er mwyn paratoi ar gyfer uno a phwerau sy'n galluogi Gweinidogion i weithredu er mwyn atal awdurdodau presennol neu gysgodol rhag gwneud unrhyw beth a allai fod yn niweidiol i'r awdurdodau unedig newydd. Mae effaith ariannol y Ddeddf yn 2016-17 yn deillio o'r ffaith y



rhoddir arian i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ddechrau gweithio ar adolygiadau o drefniadau etholaethol ar gyfer prif ardaloedd newydd arfaethedig.

### Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Y Bil hwn yw'r prif gyfrwng deddfwriaethol dros uno a diwygio Awdurdodau Lleol dan Raglen Diwygio Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Cafodd Bil drafft ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn ystod hydref 2015, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl etholiadau 2016. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw effaith ariannol yn gysylltiedig â'r Bil hwn yn 2016-17.

### Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Cafodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Bwriedir i ddarpariaethau'r ddeddf sicrhau bod y sector cyhoeddus cyfan yn canolbwyntio ar atal y problemau hyn, diogelu dioddefwyr a chynorthwyo'r rheini y mae problemau o'r fath yn effeithio arnynt. Mae'r Ddeddf yn ceisio newid seilwaith Cymru, gan greu arweinyddiaeth gryfach a sicrhau pwyslais cryfach a mwy cyson ar fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae'r effaith ariannol ar gyfer 2016/17 yn ymwneud â'r camau i barhau i weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, treialu 'Gofyn a Gweithredu' (dull ymholi wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar egwyddorion) a chostau'r Cynghorydd Cenedlaethol.

**LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)**

**RESOURCE BUDGET - Departmental Expenditure Limit**

SPA	Actions	BEL Title	BEL Number	2015-16 Baseline	2016-17 Changes	2016-17 New Plans Draft Budget
Local Government Funding	Funding Support for Local Government	Local Govt General Revenue Funding (JRSG & NDR)	840	3,178,465	-53,859	3,124,606
		Police General Revenue Funding	860	136,000		136,000
		Local Govt Revenue Consequences	885	3,787		3,787
		Non Domestic Rates Collection Costs	940	5,172		5,172
		Community Support Officers	830	16,787		16,787
		Emergency Financial Assistance Scheme	1600	1		1
		Transformation & Legislation	887	2,945	-690	2,255
	Valuation Services	Valuation Office Agency	1500	8,561		8,561
		Valuation Tribunal for Wales	1540	1,200	-126	1,074
		CTRS & Related Analysis	1550	150	-50	100
		<b>SPA / ACTION Total</b>		<b>3,353,068</b>	<b>-54,725</b>	<b>3,298,343</b>
Safer Communities	Fire and Rescue Services	Fire & Rescue Services	1265	4,777	-478	4,299
		Community Fire Safety	1698	0	848	848
	Fire and Rescue Services National Framework	Community Fire Safety	1698	1,030	-1,030	0
	Domestic Abuse	Domestic Violence Services Grant	541	4,100	400	4,500
	Promoting Positive Engagement for Young People	Youth Justice Services	1681	5,200	-780	4,420
		<b>Total Safer Communities</b>		<b>15,107</b>	<b>-1,040</b>	<b>14,067</b>

Tudalen y peyrn 32

SPA	Actions	BEL Title	BEL Number	2015-16 Provisional Baseline	2016-17 Changes	2016-17 New Plans Draft Budget
Improving Services, Collaboration and Democracy	Building Local Democracy	Local Government Boundary Commission	1440	520	52	572
		Local Government Scrutiny & Standards	1462	301	-175	126
	Local Government Improvement	Outcome Agreement	880	31,100	-31,100	0
		Improvement & Audit	1571	1,191	-731	460
		Local Government Research	1665	350	-350	0
	Academi Wales	Academi Wales	7093	0	1,109	1,109
	Supporting Collaboration and Reform	Local Government Regulation	1574	160	-16	144
		Partnerships and Transformation	1575	760	-30	730
		Public Service Reform	7089	255	-255	0
		Regulation & Engagement Framework	7097	194	-194	0
	<b>Total Improving Services, Collaboration and Democracy</b>			<b>34,831</b>	<b>-31,690</b>	<b>3,141</b>
<b>Care and Social Services Inspectorate</b>	Care and Social Services Inspectorate	Care and Social Services Inspectorate	6775	14,461	-508	13,953
	<b>Total Care and Social Services Inspectorate</b>			<b>14,461</b>	<b>-508</b>	<b>13,953</b>
<b>Healthcare Inspectorate Wales</b>	Healthcare Inspectorate Wales	Healthcare Inspectorate for Wales	6785	3,056	530	3,586
	<b>Total Healthcare Inspectorate Wales</b>			<b>3,056</b>	<b>530</b>	<b>3,586</b>
<b>Estyn</b>	Estyn	Estyn	6280	11,664	-351	11,313
	<b>Total Estyn</b>			<b>11,664</b>	<b>-351</b>	<b>11,313</b>
	<b>Total Resource - Local Government</b>			<b>3,432,187</b>	<b>-87,784</b>	<b>3,344,403</b>

CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit						
SPA	Actions			2015-16 Baseline	2016-17 Changes	2016-17 New Plans Draft Budget
Local Government Funding	Local Government General Capital Funding	General Capital Funding	1675	20,000		20,000
	<b>Total Local Government Funding</b>			<b>20,000</b>	<b>0</b>	<b>20,000</b>
Safer Communities	Fire and Rescue Services	Fire & Rescue Services Resilience	1265	1,000		1,000
		Community Fire Safety	1698	0	670	670
	Fire and Rescue Services National Framework	Community Fire Safety	1698	670	-670	0
	Domestic Abuse	Domestic Violence Services Grant	541	969		969
	<b>Total Safer Communities</b>			<b>2,639</b>	<b>0</b>	<b>2,639</b>
Estyn	Estyn	Estyn - Programme Expenditure	6280	281		281
	<b>Total Estyn</b>			<b>281</b>	<b>0</b>	<b>281</b>
	<b>Total Capital - Local Government</b>			<b>22,920</b>	<b>0</b>	<b>22,920</b>
RESOURCE BUDGET - Annually Managed Expenditure						
SPA	Actions			2015-16 Baseline	2016-17 Changes	2016-17 New Plans Draft Budget
Local Government Funding	Funding Support for Local Government	Fire Service Pensions	1699	24,593		24,593
		Non Domestic Rates - AME	870	977,000		977,000
	<b>Total Local Government Funding</b>			<b>1,001,593</b>		<b>1,001,593</b>
	<b>Total AME - Local Government</b>			<b>1,001,593</b>		<b>1,001,593</b>

Tudalen y peirh 34

	Local Government - Summary			2015-16 Baseline	2016-17 Changes	2016-17 New Plans Draft Budget
	Resource DEL			3,432,187	-87,784	3,344,403
	Capital DEL			22,920	0	22,920
	<b>Total DEL</b>			<b>3,455,107</b>	<b>-87,784</b>	<b>3,367,323</b>
	<b>Total Annually Managed Expenditure</b>			<b>1,001,593</b>		<b>1,001,593</b>
	<b>Total - Local Government</b>			<b>4,456,700</b>	<b>-87,784</b>	<b>4,368,916</b>

## Asesiad Effaith Integredig ynglŷn â Chyllideb 2016-17

### PRIF GRŴP GWARIANT – LLYWODRAETH LEOL

#### TROSOLWG O'R PORTFFOLIO

Mae'r portffolio Llywodraeth Leol yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith cyllido ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gan hyrwyddo didwylledd, tryloywder ac atebolrwydd ynghylch gwella gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal â darpariaeth benodol ar gyfer rhaglenni sy'n flaenoriaeth a chyrrff perthnasol, mae'r Prif Grŵp Gwariant yn darparu cyllid craidd ar gyfer Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ac Awdurdodau Tân ac Achub.

#### PROFFIL GWARIANT

Adnoddau – Terfyn Gwariant Adrannol			£000
Maes Rhaglenni Gwariant	Gwaelodlin 2015-16	Newidiadau 2016-17	Cyllideb Ddrafft – Cynlluniau Newydd 2016-17
Cyllid Llywodraeth Leol	3,353,068	-54,725	3,298,343
Cymunedau Mwy Diogel	15,107	-1,040	14,067
Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth	34,831	-31,690	3,141
Yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol	14,461	-508	13,953
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	3,056	530	3,586
Estyn	11,664	-351	11,313
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,432,187</b>	<b>-87,784</b>	<b>3,344,403</b>
Cyfalaf – Terfyn Gwariant Adrannol			£000
Maes Rhaglenni Gwariant	Gwaelodlin 2015-16	Newidiadau 2016-17	Cyllideb Ddrafft – Cynlluniau Newydd 2016-17
Cyllid Llywodraeth Leol	20,000	0	20,000
Cymunedau Mwy Diogel	2,639	0	2,639

<b>Estyn</b>	<b>281</b>	<b>0</b>	<b>281</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>22,920</b>	<b>0</b>	<b>22,920</b>

## **NEWIDIADAU ALLWEDDOL I WARIANT**

### **Maes Rhaglenni Gwariant – Cyllid Llywodraeth Leol**

- Y cam gweithredu ynghylch Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol (Refeniw) – £54.5 miliwn yn llai
- Ardrethi Annomestig – oherwydd bod Ardrethi Annomestig wedi'u datganoli'n ariannol ers 1 Ebrill 2015, caiff y ddarpariaeth ar gyfer Llywodraeth Leol o'r Gronfa Ardrethi Annomestig ei chofnodi bellach fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn hytrach na Therfyn Gwariant Adrannol. £977 miliwn yw'r ddarpariaeth ar gyfer 2016-17

### **Maes Rhaglenni Gwariant – Cymunedau Mwy Diogel**

- Gostyngiad net o £0.660 miliwn o ran y cam gweithredu ynghylch Gwasanaethau Tân ac Achub
- Cynnydd o £0.400 miliwn o ran y cam gweithredu ynghylch Cam-drin Domestig
- Gostyngiad o £0.780 miliwn o ran y cam gweithredu ynghylch Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc

### **Maes Rhaglenni Gwariant – Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth**

- Y cam gweithredu ynghylch Gwella Llywodraeth Leol – £32.2 miliwn yn llai (31.1 miliwn wedi'i brif-ffrydio yn y Grant Cynnal Refeniw)
- Gostyngiad o £0.495 miliwn o ran y cam gweithredu ynghylch Cefnogi Cydweithredu a Diwygio
- Trosglwyddo i Brif Grŵp Gwariant Academi Wales

### **Arolygiaethau**

- Gostyngiad o £0.508 miliwn o ran yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cynnydd o £0.530 miliwn o ran Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gostyngiad o £0.351 miliwn o ran y cam gweithredu ynghylch Estyn

## **EFFEITHIAU'R NEWIDIADAU**

Mae mwyafrif y rhaglenni sydd yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yn darparu cyllid yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol neu gyrff cyhoeddus eraill er mwyn darparu'r gwasanaethau rheng flaen y mae pobl yn dibynnu arnynt bob dydd neu er mwyn hybu gwelliant, mwy o effeithlonrwydd, a chydweithredu mwy effeithiol ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

## **Y cam gweithredu ynghylch Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol (Refeniw)**

Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys darpariaeth o ran cyllid refeniw cyffredinol ar gyfer Awdurdodau Unedol, cyllid refeniw cyffredinol ar gyfer gwasanaethau heddlu yng Nghymru a Grant Swyddogion Cymorth Cymunedol.

Y cam gweithredu hwn yw'r cam gweithredu mwyaf o bell ffordd yn y gyllideb ar gyfer Llywodraeth Leol, a chaiff ei bennu i raddau helaeth i'r cyllid refeniw cyffredinol ar gyfer Awdurdodau Unedol. Mae'r gostyngiadau i'r gyllideb gyffredinol yn golygu nad oes modd osgoi gostyngiad i'r gyllideb hon. Fodd bynnag, o fewn hynny, rydym wedi ceisio lleihau'r effaith ar Awdurdodau Lleol a gwarchod gwasanaethau rheng flaen er mwyn cyfyngu'r effeithiau ar gydraddoldebau ar lefel leol.

Mae hynny wedi golygu cynnal adolygiadau beirniadol o'n rhaglenni eraill, annog camau i gynnwys grantiau penodol yn y grant cynnal refeniw er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd, lleihau biwrocratiaeth drwy gynlluniau integredig sengl, sicrhau y caiff y goblygiadau o ran cyllid sy'n deillio o'r cyfrifoldebau datganoledig newydd a roddwyd i Awdurdodau Lleol eu hystyried, a darparu cymorth i drawsnewid a gwella gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n eang â Llywodraeth Leol drwy Gyngor Partneriaeth Cymru a'i is-grwpiau er mwyn ystyried yr heriau ariannol a ffyrdd o ddelio â nhw.

Mae pob Awdurdod Lleol yn gorff awtonomaidd a etholwyd yn ddemocrataidd, sy'n atebol i'w etholwyr am y penderfyniadau a wna. Mae gan Awdurdodau gyfres o swyddogaethau a dyletswyddau statudol, a phwerau i ddarparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau eraill. Maent yn darparu ystod o wasanaethau allweddol y mae llawer ohonynt, o ran eu natur, wedi'u hanelu at bobl â nodweddion gwarchodedig ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at drechu tlodi. Er enghraifft, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswyddau statudol i warchod plant ac oedolion agored i niwed a darparu gwasanaethau addysg. Mae ganddynt hefyd ddyletswyddau i ddarparu llawer o wasanaethau eraill, yn ogystal â dyletswydd i hybu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu cymunedau.

Nid yw'n bosibl i ni nodi'n fanwl beth yw'r effaith y bydd y gostyngiad mewn cyllid refeniw cyffredinol yn ei chael ar bob gwasanaeth Awdurdod Lleol, o ran cydraddoldeb. Y rheswm am hynny yw y bydd yr effaith yn amrywio'n lleol o'r naill Awdurdod i'r llall yn dibynnu ar y penderfyniadau y bydd pob Awdurdod yn eu gwneud ynghylch ei gyllideb unigol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai Awdurdodau yn ymuno ag eraill i ddarparu gwasanaethau, mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt yn adolygu eu polisïau codi tâl, mae'n bosibl y bydd rhai yn tynnu arian o'u cronfeydd wrth gefn, mae'n bosibl y bydd rhai yn gosod gwasanaethau ar gontract, ac mae'n bosibl y bydd eraill yn ystyried codi'r Dreth Gyngor er mwyn lleihau a rheoli'r gostyngiadau hyn. Bydd pob Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar sail angen a blaenoriaethau lleol a bydd yn rhaid i bob Awdurdod asesu effaith ei gynigion a'i benderfyniadau ar grwpiau gwarchodedig ac yng



nghyswllt ei swyddogaethau ehangach. Mae Awdurdodau Lleol yn rhwym wrth ddyletswyddau statudol o safbwynt y Gymraeg a rhaid i bob Awdurdod gynnal ei Asesiad ei hun o'r Effaith ar y Gymraeg wrth ystyried a phennu ei gyllideb.

Bydd effeithiau cyfun y penderfyniadau hyn yn amrywio o le i le ond mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynorthwyo ac yn annog Awdurdodau i fabwysiadu dull strategol a hirdymor o reoli eu cyllidebau. Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi cael ei gwarchod rhag y toriadau gwaethaf i gyllid cyhoeddus. Wrth warchod Llywodraeth Leol yn y fath fodd, bu i ni nodi'n glir mai diben hynny oedd galluogi Llywodraeth Leol i ailystyried a diwygio gwasanaethau er mwyn paratoi ar gyfer heriau'r dyfodol. Cafodd y dull hwn o weithredu ei ategu gan raglen waith a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid eraill ym maes gwasanaethau cyhoeddus dan nawdd Cyngor Partneriaeth Cymru er mwyn hybu cydweithredu, arloesi a gwaith ailddylunio gwasanaethau.

Mae'r heriau yn anodd ond bydd penderfyniadau byrdymor, er enghraifft i gau canolfannau hamdden neu lyfrgelloedd heb ystyried yr effeithiau tymor hwy ar iechyd a llythrennedd, yn cronni problemau ar gyfer y dyfodol ac yn methu â darparu dull cynaliadwy o reoli'r gostyngiadau yn y gyllideb.

Yn ogystal â'r ystyriaethau cyllidebol hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol gynnal eu hasesiadau eu hunain o'r effaith ar gydraddoldeb wrth iddynt fynd drwy eu prosesau ar gyfer pennu cyllidebau ac rydym yn disgwyl i'r asesiadau hynny roi ystyriaeth lawn i oblygiadau eu penderfyniadau arfaethedig ynghylch gwariant.

Er mai mater i bob Awdurdod Lleol yw penderfynu ar y camau gweithredu y bydd yn eu cymryd rydym wedi ceisio sicrhau, er mwyn lleihau effeithiau cyni, bod gwaith buddsoddi'n cael ei anelu at grwpiau gwarchodedig yr effeithir arnynt. Er mwyn gwrthbwyso'r effeithiau ar gymunedau, rydym wedi buddsoddi yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen drwy'r Grant Cynnal Refeniw, rydym wedi defnyddio ein hysgogiadau o ran arian ar gyfer seilwaith ac arloesi ac rydym wedi gwarchod y rhaglenni sydd wedi'u hanelu at gydraddoldeb, adfywio cymunedau, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.

Mae'r cyllid refeniw cyffredinol ar gyfer gwasanaethau heddlu yn cyd-fynd â chynlluniau'r Swyddfa Gartref yn unol â threfniadau sydd ar waith ers amser. Caiff gwasanaethau heddlu yng Nghymru eu cyllido'n bennaf drwy Grant Heddlu'r Swyddfa Gartref, grant cynnal refeniw Llywodraeth Cymru ac ardrethi annomestig, a thrwy'r Dreth Gyngor. Ers dechrau cyfnod Adolygiad o Wariant 2010, mae cyfraniad Llywodraeth Cymru i'r cyllid wedi adlewyrchu cynlluniau'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod cyllid pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gostwng yr un faint o ran canran. Yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol, mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd gyfrifoldebau statudol ynghylch y modd y caiff eu cyllidebau eu pennu ac maent yn gyfrifol am asesu effaith eu penderfyniadau.

Mae cyllid ar gyfer y 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol wedi'i warchod fel un o'r ymrwymadau "Pump am Ddyfodol Tecach" yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae pob un o'r 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi cael eu recriwtio a'u lleoli erbyn hyn ac mae'r cyllid yn golygu bod modd cynnal adnodd rheng flaen ar y lefel hon.

Mae gan Swyddogion Cymorth Cymunedol rôl hollbwysig i'w chwarae yn eu cymunedau. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol ar atal troseddu, yn rhoi tawelwch meddwl i grwpiau pobl dros 60 oed, yn helpu busnesau lleol i leihau achosion o ddwyn o siopau, ac yn cymryd rhan mewn archwiliadau, mewn achosion o atafaelu alcohol a thybaco ac mewn ymholiadau o ddrws i ddrws sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau troseddol. Maent hefyd yn weithgar mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf gan gefnogi'r agenda ynghylch trechu tlodi. Mae'r 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gyfraniad sylweddol i nifer y swyddogion sydd ar batrôl yng Nghymru.

Bu i ni gomisiynu Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu ym Mhrifysgol Caerdydd i arfarnu'r effaith y mae'r 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yn ei chael ar draws heddluoedd Cymru a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn asesu gwaith y Swyddogion Cymorth Cymunedol ac yn mesur yr effaith y maent yn ei chael o safbwynt gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel. Ar adeg pan fo Llywodraeth y DU yn torri cyllid i heddluoedd, sy'n golygu bod niferoedd swyddogion yn gostwng yn Lloegr, mae'r ymchwil yn dangos nad yw niferoedd swyddogion yng Nghymru yn gostwng i'r un graddau. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod ein swyddogion ychwanegol yn amlwg ar ein strydoedd a'u bod yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd drwy ymdrin â mân droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### **Y cam gweithredu ynghylch Gwasanaethau Tân ac Achub**

Wrth asesu effaith gostyngiadau i'r gyllideb Refeniw Diogelwch Tân Cymunedol, mae'n bwysig deall tueddiadau hirdymor yn nifer yr achosion o dân a difrifoldeb tanau, a thueddiadau hirdymor yng ngwaith y gwasanaeth tân felly. Mae'r canlynol yn amlygu hynny:

- Gwelwyd gostyngiad cyson a hirdymor o bwys yn nifer y tanau a gafwyd ledled Cymru. Mae ffigurau 2014-15 yn dangos bod 56% yn llai o danau nag yn 2004-5, a bod 58% yn llai o bobl wedi'u hanafu neu'u lladd.
- Mae data ar gyfer gwahanol gategoriâu o danau hefyd yn dangos gostyngiad cyson yn y tymor hwy. Mae'r categorïau hynny'n cynnwys tanau mewn anheddau a thanau a gafodd eu cynnau'n fwriadol. Mae nifer y galwadau ffug maleisus hefyd yn gostwng.

- Er bod y manylion yn amrywio ryw ychydig, mae'r tueddiadau hyn i'w gweld yn gyffredinol ym mhob un o'r tri gwasanaeth tân a geir yng Nghymru.

Mae'r tueddiadau hyn yn debyg i'r rhai a geir yn Lloegr neu'n rhagori arnynt. Maent yn adlewyrchu'r gwaith atal a wneir gan wasanaethau tân yn ogystal â newidiadau ehangach, megis llai o ysmegu a rheoliadau mwy llym ynglŷn â diogelwch tân (er enghraifft, ynglŷn â deunyddiau adeiladu a dodrefnu). Nid yw'n bosibl gwahanu'r ddau beth a darganfod yn union pa mor effeithiol y bu neu y mae'r gwaith atal a wneir gan y gwasanaeth tân.

O ganlyniad i'r gostyngiad mawr a fu yn nifer yr achosion o dân, mae gwaith gwasanaethau tân yn canolbwyntio fwyfwy ar atal tanau, lleihau'r perygl o dân a gwella ymwybyddiaeth o dân a diogelwch tân, yn hytrach nag ar ymateb i ddigwyddiadau. Hynny yw, mae gwaith atal yn dod yn rhan fwyfwy sylweddol a chreiddiol o fusnes y gwasanaeth, a chaiff ei reoli a'i gyllido'n unol â hynny. Dylid nodi yn y cyd-destun hwn mai dim ond ryw ychydig y mae capasiti a gwariant termau real y gwasanaethau tân yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, er bod nifer y digwyddiadau wedi gostwng yn sylweddol. Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cydnabod eu hunain bod hynny'n adlewyrchu'r ffaith bod adnoddau craidd yn cael eu neilltuo'n gynyddol ar gyfer rolau atal yn hytrach na rolau ymateb.

Hyd yma mae grantiau Diogelwch Tân Cymunedol wedi'u defnyddio i gyllido rhywfaint o'r gweithgarwch atal hwn, gan gynnwys gwaith gyda grwpiau agored i niwed yn enwedig:

- o Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref: yn darparu cyngor ynghylch diogelwch yn y cartref ac offer priodol. Mae cysylltiad cryf rhwng sawl nodwedd warchoddedig, yn enwedig oedran ac anabledd, a risg uwch o dân. Mae'r gwiriadau'n cael eu targedu'n unol â hynny a byddant yn parhau i gael eu targedu felly. Maent yn cynnwys offer ac ymyriadau wedi'u teilwra sy'n adlewyrchu amgylchiadau pob achos. Er enghraifft, gall y sawl sydd â nam ar eu clyw gael larwm mwg sy'n tynnu sylw'r llygad yn hytrach na'r glust. Efallai na fydd pobl sy'n cael anhawster symud yn gallu dianc rhag tân, felly bydd angen system llethu tân arnynt.
- o Mentrau ieuenctid (Phoenix a'r prosiect Troseddau a Chanlyniadau): lle mae plant y nodwyd eu bod ar fin troseddu neu'u bod wedi troseddu'n cymryd rhan mewn rhaglen weithgarwch er mwyn eu hatal rhag troseddu a'u galluogi i ddatblygu agweddau ac ymddygiad mwy cadarnhaol yn gyffredinol.
- o Lleihau nifer y tanau bwriadol: gweithio gydag asiantaethau eraill i dargedu achosion o gynnu tân yn fwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymyriadau'n amrywio o bresenoldeb amlwg mewn ardaloedd lle gwyddys bod tanau'n cael eu cynnu'n fwriadol, i addysg a chymau gweithredu gan yr heddlu.

o Diogelwch ar y ffyrdd: gweithio gydag asiantaethau eraill megis Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans ar waith i leihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y sawl sydd mewn perygl (y grŵp oedran 17-24 oed fel rheol). Mae'r ymyriad hwn o ran diogelwch ar y ffyrdd wedi'i anelu at yrwyr ifanc ac at achosion ac effeithiau eu gweithredoedd.

Bydd union effeithiau'r gostyngiad a gynigir ar gyfer 2016-17 yn cael eu trafod yn llawn ag Awdurdodau Tân ac Achub. Byddwn yn ceisio diogelu rhaglenni sy'n cael yr effaith wirioneddol fwyaf ar leihau'r perygl o dân, yn enwedig i bobl agored i niwed.

### **Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig**

Mae'r gyllideb referniw o £4.1 miliwn ar gyfer y Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig wedi'i chynyddu £400,000 yn 2016-17 er mwyn cyfrannu at gostau gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

Mae'r rhaglen yn darparu cyllid i sefydliadau statudol a mudiadau'r trydydd sector er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn benodol, yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd y gyllideb yn cynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Ddeddf ac ystod o bolisiau a rhaglenni ategol. Ers 2014-15 mae llawer o adnoddau wedi'u buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a "Gofyn a Gweithredu" (dros £500,000 yn ystod y tair blynedd nesaf) yn ogystal â'n hagenda ynghylch Perthnasoedd Iach a fydd yn parhau i gael ei chyflwyno ym mhob ysgol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn nesaf am gost o £500,000.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dioddefwyr yn gallu hanu o bob rhan o'r gymdeithas ac y gallant gynnwys pobl hŷn, pobl o bob cefndir ethnig, crefydd a chred, pobl ag anableddau a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol. Yn aml bydd cam-drin domestig a thrais domestig yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Bydd eu hawl i gael eu gwarchod yn cael ei chefnogi ymhellach o ganlyniad i'r cynnydd hwn. Felly, mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â thrais a chamdriniaeth a gyflawnir yn erbyn pawb yng Nghymru, ni waeth beth fo'u rhyw, eu hoedran neu'u cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynd i'r afael â thrais a gyflawnir yn erbyn dynes neu ddyn, sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion yn ymwneud â rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Amcangyfrifir y bydd costau ychwanegol y Ddeddf hon rhwng £1.1 miliwn a £2 filiwn y flwyddyn yn ystod y tair blwyddyn ariannol nesaf (2016-17 i 2018-19). Mae angen i'r costau hyn gael eu gosod yng nghyd-destun yr amcangyfrif o gost flynyddol cam-drin domestig yn unig yng Nghymru, y credir ei bod yn oddeutu £826.4 miliwn. Mae'n gyfuniad o gostau gwasanaethau sy'n cynnwys y system cyfiawnder troseddol, gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, a chostau cyfreithiol sifil. Mae

hefyd yn cynnwys costau sy'n ymwneud â chynnyrch economaidd a gollir a chostau dynol ac emosiynol.

Bydd cyllideb o £4.5 miliwn yn helpu i sicrhau bod seilwaith cryf yn cael ei gynnal, bod gwasanaethau effeithiol ar waith ar draws Cymru yn Gymraeg a Saesneg, a bod mesurau codi ymwybyddiaeth a mesurau atal yn cael eu darparu ar gyfer y sawl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly, bydd y cyllid hwn yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb oherwydd ei fudd uniongyrchol i bobl sy'n perthyn i'r grwpiau gwarchoddedig dan sylw. Ceir cysylltiadau hefyd â'r agenda ynghylch trechu tlodi – oherwydd gwyddom, mewn rhai amgylchiadau, fod mwy o berygl y bydd teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig yn byw ar aelwyd ag incwm isel.

### **Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl ifanc (sydd mewn Perygl o Droseddu)**

Mae ein hymrwymiad i wella bywydau plant a phobl ifanc agored i niwed yn amlwg yn ein penderfyniad i gynnal £4.420 miliwn o gyllid ar gyfer Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl ifanc (sydd mewn Perygl o Droseddu) yn 2016-17. Bydd y gronfa, a gâi ei galw'n flaenorol yn Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid, yn parhau i gefnogi ystod o fentrau y bwriedir iddynt atal a lleihau troseddau ieuenctid. Caiff y cyllid ei ddyrannu drwy fformiwla ariannu a'i ddsbarthu i Dimau Troseddau Ieuenctid neu Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru er mwyn cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol.

Bydd parhau â'r cyllid hwn yn cynorthwyo i gyflawni Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf, sef strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd eisoes yn rhan o'r system. Cafodd y strategaeth ei lansio a'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014, ac mae'n parhau â dull Llywodraeth Cymru ers amser o ymdrin â chyfiawnder ieuenctid, sef trin y sawl sy'n troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu fel plant a phobl ifanc yn gyntaf. Mae hynny'n cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dyletswyddau Gweinidogion Cymru dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i ystyried y Confensiwn.

Mae'r cyllid hwn yn helpu i hybu nodau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb oherwydd ei fudd uniongyrchol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ac sy'n aml yn wynebu anfantais ac yn wynebu cael eu heithrio. Gwyddom fod plant a phobl ifanc o aelwydydd ag incwm isel yn fwy tebygol o ymwneud â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, felly bydd parhau â'r cyllid hwn ac atal troseddau ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau tlotaf yng Nghymru. Gwyddom hefyd fod troseddwr ifanc mewn mwy o berygl nag oedolion o fyw mewn tlodi. Mae'n hollbwysig bod grwpiau agored i niwed (megis y sawl sydd mewn perygl o droseddu) yn cael cymorth a mynediad i'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen – gan gyfrannu i nod Llywodraeth Cymru, sef atal tlodi yn y tymor hwy. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru wedi cyflawni llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf o safbwynt lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, a gwelwyd gostyngiad o 34% rhwng Ionawr – Rhagfyr 2011 a 2013 sy'n golygu bod llai o bobl ifanc yn dod yn rhan o'r

system. Yn ogystal, mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd mewn dalfa wedi gostwng rhwng mis Mawrth 2011 a mis Mawrth 2014, o 93 i 49.

### **Y cam gweithredu ynghylch Gwella Llywodraeth Leol**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Gwella Llywodraeth Leol yn cefnogi nifer o raglenni cyfredol lle mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill i ddatblygu capasiti llywodraeth leol i sicrhau gwelliant corfforaethol, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009. Bydd y gostyngiadau'n cael eu cyflawni drwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac ymdrechu o'r newydd i gyflawni'r agenda ynghylch gwella a nodwyd yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol*. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith wahaniaethol ar grwpiau neu gymunedau penodol gan mai ar gyfer gwelliant corfforaethol yn hytrach na darparu gwasanaethau y mae'r cyllidebau.

### **Y cam gweithredu ynghylch Cefnogi Cydweithredu a Diwygio**

Ceir gostyngiad (o £0.5 miliwn) yn y cyllid ar gyfer cefnogi cydweithredu a diwygio, sy'n gysylltiedig yn bennaf â'r penderfyniad yn 2014-15 i beidio â bwrw ymlaen â system TG ar gyfer Rheoli Perfformiad y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, a'r ffaith bod y prosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol a gâi ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi dod i ben ym mis Mai 2015.

Mae dod â'r prosiect **system TG ar gyfer Rheoli Perfformiad y Sector Cyhoeddus yng Nghymru** i ben yn golygu bod y costau a ddisgwyld, sef tua £500,000 i £1 filiwn y flwyddyn dros 7 mlynedd y contract, yn cael eu dychwelyd i wasanaethau rheng flaen. Bydd gwersi o'r broses gaffael hefyd yn cyfrannu i ymateb y Llywodraeth i elfennau perfformiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae gan **Fyrddau Gwasanaethau Lleol** rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt cydweithio i wella lles y bobl, y cymunedau a'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu. Gallai'r ffaith bod y prosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol, a gâi ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, wedi dod i ben effeithio'n negyddol ar allu'r Byrddau i gyflawni'r rôl honno'n effeithiol, o gofio'r rhan y mae'r cyllid wedi'i chwarae yn y gwaith o ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol, mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau datblygol y Trydydd Sector o brosiectau cyflawni, gwaith ymgysylltu ehangach gan gynnwys ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig, a'r gwaith o rannu arfer da o ran cydweithredu a darparu gwasanaethau ar lefel leol a rhanbarthol.

Os na chaiff cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ei gadw ar ryw lefel yn 2016-17, gallai'r gwasanaethau cyhoeddus a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn enwedig golli dealltwriaeth o ganlyniadau'r prosiect a cholli'r gallu i gynorthwyo gwaith monitro gan y Byrddau yng nghyswllt unrhyw gamau i brif-ffrydio canlyniadau'r prosiect, gwaith ymgysylltu â dinasyddion, a'r rhwydweithiau cyfredol a all ychwanegu gwerth at waith Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Er mwyn lleihau effeithiau ymhellach, mae rhywfaint o gyllid wedi'i gynnal yn 2016-17 i ddarparu peth cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Lleol adeiladu eu capasiti a'u gallu i gynnal asesiad cadarn o anghenion lleol a pharatoi ar gyfer y gwaith datblygu a'r gofynion a nodwyd ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn hefyd, os yn bosibl, yn ystyried defnyddio incwm o'r Undeb Ewropeaidd a gafwyd yn 2015-16 i ddarparu cymorth ychwanegol.

Mae gwaith cynllunio integredig yn sicrhau bod anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn rhan o ystyriaeth ehangach i les a dull mwy cyfannol o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae effeithiau canlyniadau a thystiolaeth o werthusiadau prosiectau cyflawni'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn berthnasol yma hefyd, a gallai hynny fynd ar goll oni pharheir i ddarparu cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Lleol.

Ar hyn o bryd, ceir diffyg data/tystiolaeth ar lefel genedlaethol i asesu a mesur yn llawn beth yw effaith colli cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i Fyrddau Gwasanaethau Lleol o safbwynt datblygu'r Byrddau a gweithio mewn partneriaeth yn lleol.

Er y gwelwyd gostyngiad yn y cyllid ar gyfer **cefnogi gwaith dylunio a darparu gwasanaethau**, cadwyd cyfran sylweddol ohono er mwyn cynorthwyo i ail-lunio'r modd yr ydym yn ystyried ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus i ddiwallu anghenion pobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Un o themâu craidd y rhaglen waith hon yw hybu'r broses o newid i ddulliau atal drwy brosiectau sy'n ymwneud ag ymyrryd yn gynharach (o safbwynt plant sydd ar goll; cam-drin domestig); gwasanaethau cydgysylltiedig (ee o safbwynt galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd, neu fabwysiadu dulliau Tîm o Amgylch y Teulu o weithredu). Mae'r prosiectau hyn yn nodi ac yn rhannu arfer gorau ynghylch cydgysylltu gwasanaethau drwy grwpiau arweinyddiaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ceir cysylltiadau yma hefyd â'r agenda ynghylch trechu tlodi – yn enwedig o safbwynt darparu gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (sy'n flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi).

### **Arolygiaethau**

Nid wyf yn gyfrifol yn uniongyrchol am yr Arolygiaethau ond maent wedi'u cynnwys yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau o ran polisi a chyfrifoldebau o ran cyllid yn cael eu gwahanu'n briodol. Mae'r Arolygiaethau yn cyflawni gwaith pwysig ond byddant yn profi cyfran o'r toriadau a orfodwyd ar Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod eu rolau hollbwysig a chan drafod â'm cyd-Weinidogion perthnasol, mae'r Arolygiaethau wedi'u gwarchod i ryw raddau. Mewn gwirionedd, mae cyllid Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'i gynyddu er mwyn cydnabod y rôl allweddol y mae'n ei chyflawni o safbwynt sicrhau ansawdd ystod o ymyriadau a lleoliadau gofal iechyd. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn er mwyn cadw eu gostyngiadau ar lefelau y mae modd eu rheoli.

## Ymgysylltu

- Gwaith ymgynghori ffurfiol helaeth â Llywodraeth Leol a phartneriaid ym maes gwasanaethau cyhoeddus drwy Gyngor Partneriaeth Cymru a'i is-grwpiau – yr Is-grŵp Cyllid a'r Grŵp Cyflawni Diwygio, gyda chymorth gan y Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a gweithgorau swyddogol megis yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi. Mae'r broses ymgynghori ffurfiol i gefnogi Llywodraeth Leol yn un o'r prosesau mwyaf helaeth ym maes llywodraeth. Caiff y systemau ffurfiol eu hategu gan waith ymgysylltu anffurfiol helaeth rhwng Gweinidogion, cynrychiolwyr etholedig a swyddogion.
- Cynhaliwyd ymarferion ymgynghori â'r cyhoedd yng nghyswllt pob agwedd arwyddocaol ar waith datblygu polisi.

## Tystiolaeth

- Papurau a dadansoddiadau niferus a ddatblygwyd yn benodol yng nghyswllt y trefniadau ymgysylltu a amlinellwyd uchod. Dadansoddiadau Llywodraeth Cymru yn cynnwys *Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2014-15*, *Cymharu'r Ardaloedd Cydweithredol Rhanbarthol 2014*. Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys *Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru*. Deunydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Leol yn cynnwys *Local Government Expenditure in Wales: Recent Trends and Future Pressures*.
- Mae darpariaeth ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn rhan o'r cymorth cyllid ar gyfer llywodraeth leol. Roedd y trefniadau ar gyfer cymorth o ran y dreth gyngor yn destun adolygiad cynhwysfawr yn ystod cynlluniau 2013 a 2014. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth fanwl i nifer o ffynonellau tystiolaeth ynghylch profiadau ac effeithiau cynlluniau yn 2013-14, a oedd yn cynnwys gwaith a gyflawnwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n dadansoddiad ni ein hunain o ddata a gasglwyd o bob Awdurdod yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

- Ym mis Tachwedd 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft a'i ddogfennau cysylltiedig. Roedd y dogfennau hynny'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn 2015, gofynnodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus unwaith eto i bob Awdurdod am wybodaeth ynglŷn â'i ddull o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth



bennu ei gyllideb. Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi a chafodd crynodeb o'r enghreifftiau gorau ei hyrwyddo i Awdurdodau ledled Cymru.

- Adolygiad o Hyblygrwydd o ran Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol. Bu'r adolygiad hwn yn ystyried yr opsiynau o ran cynyddu'r hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol wrth iddynt ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir iddynt gan Lywodraeth Cymru. Bu'n canolbwyntio'n benodol ar y posibilrwydd o leihau cyfran yr arian a ddarperir at ddibenion penodol yn hytrach nag ar ffurf cyllid cyffredinol y gall Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio at unrhyw ddiben o fewn y pwerau sydd ar gael iddynt.
- Bydd gwaith gwerthuso sydd ar y gweill yn gwella ymhellach y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd gennym am weithgarwch Byrddau Gwasanaethau Lleol a bydd yn helpu i ddarparu tystiolaeth fwy mesuradwy ar gyfer gwaith cynllunio busnes a chyllidebau yn y dyfodol ac ar gyfer asesiadau o effaith.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub ar adeg anodd er mwyn darparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon, drwy dargedu adnoddau i gyflawni canlyniadau gwell a sicrhau bod cymunedau yn fwy diogel rhag peryglon tân.
- Mae'r Fframwaith "2012 Ymlaen" yn nodi mwy o ffocws ar wella effeithlonrwydd a gwerth am arian. Mae angen i Awdurdodau Tân ac Achub fod yn fwy arloesol wrth gynllunio a dylunio eu gwasanaethau ac ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio staff, o safbwynt darparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cymorth.

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Dyddiad:** 13 Ionawr 2016

**Amser:** 11:00

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae  
Caerdydd

**Teitl:** Cais i roi gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft  
2016-17 gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth  
Leol

### Diben

1. Darparu gwybodaeth am Gyllideb Ddrafft 2016-17 mewn perthynas â'r Gymraeg yn unol â chais y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

### Amseru

2. Cyhoeddwyd y gyllideb drafft ar 8 Rhagfyr.

### Ymateb

3. Darperir y wybodaeth ganlynol yn y drefn a nodwyd yn y llythyr comisiynu dyddiedig 2 Tachwedd 2015 o dan y penawdau canlynol:

- Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb ar gyfer ariannu'r Gymraeg
- Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu
- Polisiâu allweddol
- Aseidiadau o'r effaith ar y Gymraeg
- Gwariant Ataliol
- Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth

### Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb ar gyfer ariannu'r Gymraeg

4. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r Camau Gweithredu sy'n ymwneud ag ariannu'r Gymraeg:

<b>Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)</b>		<b>2015-16</b> £000	<b>2016-17 (drafft)</b> £000
BEL 5164	Cymraeg mewn Addysg	18,599	18,681
BEL 6020	Y Gymraeg	5,259	3,913
BEL 6021	Comisiynydd y Gymraeg	3,390	3,051
	<b>Cyfanswm</b>	<b>27,248</b>	<b>25,645</b>

Noder: Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys £825k a drosglwyddwyd o BEL 6020 i BEL 5164

5. Diben **BEL 5164** yw gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys:

- cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
- darparu hyfforddiant i ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol
- darparu hyfforddiant Cymraeg drwy gyrsiau Cymraeg i Oedolion a Chymraeg ail iaith;
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;

- hyrwyddo trosglwyddo'r iaith o fewn teuluoedd;
  - gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r Strategaeth.
6. Diben **BEL 6020** yw ategu nodau Strategaeth y Gymraeg *iaith fyw: iaith byw a'r datganiad polisi iaith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen*, sef:
- Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
  - Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
  - Cryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned
  - Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
  - Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
  - Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith
7. Diben **BEL 6021** yw ariannu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau a phwerau eang sy'n cynnwys:
- gweithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
  - gosod dyletswyddau ar unigolion a gwmpesir gan y Mesur i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg
  - cynnal ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
  - ymchwilio i achosion honedig o ymyrryd â rhyddid unigolyn i gyfathrebu ag unigolyn arall yn Gymraeg
  - hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat
8. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu ein blaenoriaethau, ond mae wedi'i llywio gan benderfyniadau Llywodraeth y DU. Mae Cyllideb Cymru £1.4 biliwn yn llai nawr nag yn 2010-11 gyda'r setliad yn parhau i leihau mewn termau real 3.6 y cant rhwng 2015-16 a 2019-20. Roeddem yn gwybod y byddai ein cyllideb yn llai mewn termau real ond nid oeddem yn gwybod faint yn llai. Yr hyn a wyddem, wrth gwrs, yw nad yw'r galw am wasanaethau na'r pwysau arnynt yn lleihau mewn ymateb i gyni cyllidol.
9. Rydym wedi seilio ein penderfyniadau gwario ar ddadansoddiad o ofynion ac anghenion mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus allweddol sydd yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Yn yr hinsawdd ariannol heriol rydym wedi ceisio canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau sy'n seiliedig ar asesiad o'r effaith gadarnhaol fwyaf a lliniaru effeithiau cyni cyllidol lle na ellir eu hosgoi.
10. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau dyfodol yr iaith ac wedi cyfyngu'r gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm Cyllideb y Gymraeg i 5.9% yn 2016-17 drwy ddyrannu £1.2 miliwn i gefnogi'r Gymraeg yn y Gymuned, drwy flaenoriaethu gweithgarwch i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a chaffael iaith a chodi safonau. Fodd bynnag, nid yw arian ar ei ben ei hun yn sicrhau y bydd yr iaith yn parhau i ffynnu a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau partner er mwyn gosod sylfaen gadarn i'r iaith yn y dyfodol.

11. Er mwyn cael copi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am ddarpariaeth gyllidebol i ategu'r broses o weithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol (WESPS), gweler Atodiad 1.

### **Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â'r Gymraeg**

12. Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.
13. Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru (y mae un ohonynt yn cynnwys '[Cymru]... lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'), ac mae'r pum ffordd o weithio yn sicrhau bod gyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu Gwasanaethau. Mae dull gweithredu o'r fath yn hanfodol bwysig i'r Gymraeg sy'n faes polisi trawsbynciol.

### **Polisiau allweddol**

#### **Cyflawni Iaith Fyw: Iaith Byw a Bwrw Mlaen**

14. Caiff ein gwariant ei gynllunio yn unol â'r gweithgareddau a nodir yn Strategaeth y Gymraeg, dogfen bolisi Bwrw Mlaen a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, fel y nodwyd ym mharagraffau 5-7 isod. Bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd oherwydd y sefyllfa ariannol dynn iawn.

#### **Ailflaenoriaethu arian**

15. O ran effaith ailflaenoriaethu arian o dan ddogfen Bwrw Ymlaen, roedd ailflaenoriaethu arian o faes Cymraeg i Oedolion er mwyn hybu'r iaith yn yr economi a'r gymuned yn benderfyniad anodd. Bydd y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y gweinyddir Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys sefydlu endid cenedlaethol newydd, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd a fydd yn lleihau'r effaith rywfaint yn y dyfodol.
16. Rhoddwyd £750,000 o arian ychwanegol i'r Mentrau Iaith yn 2014-15 a 2015-16 er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael er mwyn galluogi'r Mentrau i wneud eu gwaith. Y brif flaenoriaeth oedd sicrhau arian sylfaenol ar gyfer pob un o'r Mentrau. Mae Mentrau Iaith Cymru hefyd wedi cael arian ychwanegol er mwyn

cefnogi gwaith y Mentrau ar lawr gwlad, gyda'r nod o godi safonau a datblygu rhaglen farchnata a datblygu staff.

17. Sefydlwyd cynllun grant Bwrw Mlaen yn 2014-15 a rhoddodd bwyslais ar gyflawni prosiectau arloesol newydd. Ariannwyd cyfanswm o naw prosiect yn 2015-16. Isod ceir enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd:

- **Menter Bro Dinefwr** - Prosiect newyddiaduraeth cymunedol yn ardal Dinefwr sy'n gweithio gyda'r papurau bro lleol a nifer o sefydliadau cymunedol er mwyn creu prosiect hypernewyddion cymunedol drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- **Hunaniaith** - Prosiect Cymraeg yn y Gweithle – sydd â'r nod o hybu a chefnogi'r Gymraeg o fewn nifer fawr o weithleoedd a busnesau yng Ngwynedd
- **Menter Môn, Rhwydwaith Perfformwyr Ynys Môn** – prosiect sydd â'r nod o greu rhwydwaith o berfformwyr ifanc ar Ynys Môn a fydd yn eu tywys a'u chefnogi drwy'r broses o ymsefydlu fel perfformwyr.

18. Sefydlwyd cynllun grant newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn 2015-16 er mwyn sicrhau bod sefydliadau sy'n cael arian grant yn gwella eu prosesau cynllunio ac yn cydweithredu'n well. Mae'r cynllun grant hefyd yn pwysleisio bod angen datblygu prosiectau sy'n seiliedig ar fylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Bydd y cynllun grant newydd ar waith o fis Ebrill 2016.

### ***Cyllid ar gyfer y Gymraeg ar draws portffolios y Gweinidogion***

19. Yn ogystal â'r gyllideb benodol ar gyfer y Gymraeg, caiff symiau o arian eu gwario ar y Gymraeg ar draws portffolios y Gweinidogion. Yn aml, caiff arian o'r fath ei brif ffrydio mewn rhaglenni a phrosiectau ac ni ellir ei nodi ar wahân. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau o arian dynodedig sydd wedi'i anelu'n benodol at gefnogi'r Gymraeg, megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef y corff annibynnol sy'n goruchwyllo, yn rheoli ac yn datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg ledled Cymru - yn ogystal ag arian penodol o fewn y portffolio Datblygu Economaidd er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes.

### ***Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Chomisiynydd y Gymraeg***

20. O ran dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft, gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a chyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg, mae'r sefyllfa ariannol heriol a wynebir gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn golygu bod yn rhaid gwneud arbedion ym mhob maes polisi. Ym mlaen ein meddwl roedd yr angen i ddiogelu gweithgarwch sydd â'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau. Felly, bu'n rhaid i ni wneud y penderfyniad anodd i leihau cyllideb Comisiynydd y Gymraeg 10%. Mae'r lleihad hwn wedi'i gymhwyso'n gyson at bob un o'r Comisiynwyr.

### ***Cyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg***

